



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

CYNGOR TREF AMLWCH TOWN COUNCIL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Hydref 29 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday October 29 2019 at 7pm.**

Presennol/Present: Cyng. Liz Wood (Cadeirydd) Myrddin Owens; Gordon Warren; Mike Roberts; Meg Roberts; John Byast; Julie Ann Hughes; Rev. Kevin Ellis; Carys Hughes; Gerry Belanger; Cyng/Cllr Richard Griffiths; Gina Jones; Gareth Winston Roberts; Cyng/Cllr Aled M Jones (hanner olaf y cyfarfod/ midway through the meeting).

Yn bresennol/In attendance: Sydna Roberts Clerc Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd yn absenoldeb Clerc Cyngor Tref Amlwch/Llannerchymedd Community Council Clerk in the absence of Amlwch Town Council's Clerk, Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Aelodau o'r cyhoedd/Members of the public.

Ymddiheuriadau/Apologies: Andy Hughes; Richard O Jones.

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau/Welcome and Apologies**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

The Chair welcomed the members to the meeting.

2. **Datgan Diddordeb /Declaration of Interest**

Ni ddatganwyd unrhyw ddi-ddordeb/No interests were declared.

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting**

Nodwyd nad oedd cofnodion i law oherwydd cyfnod salwch y Clerc.

It was noted that no minutes were available due to the Clerk's sick absence.

4. **Materion yn Codi/Matters Arising**

Cyflwynodd y Cadeirydd y diweddariadau canlynol:-

➤ Arolwg Llifogydd wedi ei gylchredeg.

➤ Cyfeiriwyd at y gwaith o osod meinciau ym Mhorth Llechog a gwaith ar dir CSYM ym Mhorth Amlwch.

Cytunwyd: i drafod yn y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored cyn y Pwyllgor Llawn nesaf.

➤ Trefniadau mewn llaw i Dylan Williams CSYM fynychu cyfarfod llawn Tachwedd neu Ragfyr.

➤ Rhun ap Iorwerth yn holi os yw'r Cyngor Tref am gyfarfod Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Cytunwyd: i'r Clerc drefnu gan gynnig cwrdd yn swyddfeydd y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno.

- Croeswr Ysgol - derbyniwyd e-bost gan CSYM yn nodi eu bod wedi dilyn canllawiau statudol ar Groeswyr Ysgol a bydd CSYM yn cyflwyno cais i'r Lywodraeth Cymru am arian i gefnogi dulliau i ddiogelu ffyrdd ger ysgolion.
Cytunwyd: cynigiodd Meg Roberts bod y Cyngor Tref yn gofyn am sefydlu Croesfan Pelican ac fe eiliwyd gan Mike Roberts - cytunwyd yn unfrydol. Clerc i weithredu
- Ymgynghoriad Ysgolion Môn - e-bost i law yn egluro'r costau. Derbyniwyd cynnwys yr e-bost yn unfrydol.
- Marchnad Amlwch - gohirio i'r cyfarfod nesaf.
- Tir tu ôl i Lucky House - Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno adroddiad ecolegol ynghlwm a'r cais cynllunio sy'n nodi bod risg o lifogydd yn yr ardal. Nodwyd bod goblygiadau yswiriant posib i rai sy'n byw yn yr ardal.
Cytunwyd: i drefnu cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru rhag blaen. Clerc i weithredu.

The Chair reported on the following updates:-

- The Flood Review had been circulated.
- The work of installing benches at Bull Bay was mentioned as well as the work on IACC land at Amlwch Port.
Agreed: to discuss at the Park and Open Spaces committee before the next Council meeting.
- Arrangements in hand for Dylan Williams from IACC to attend either the November or December Council meeting.
- Rhun ap Iorwerth had enquired whether the Town Council was going to meet Ken Skates, the Economy and Transport Minister.
Agreed: that the Clerk arranges the meeting offering to meet at the Assembly's offices in Llandudno Junction.
- School Patrol – an e-mail was received from IACC noting that they had followed statutory guidelines with School Patrols and IACC will be presenting a request for funding to the Welsh Government in order to support other methods of ensuring road safety near schools.
Agreed: Meg Roberts proposed that the Town Council requests a Pelican crossing and this was seconded by Mike Roberts – agreed unanimously. Clerk to action.
- Anglesey Schools consultation – an e-mail to hand explaining the costs. The content of the e-mail was accepted unanimously.
- Amlwch market – adjourned until the next meeting.
- Land behind Lucky House – Natural Resource Wales had submitted an ecological report with the planning application noting a flood risk in the area. It was noted that there could be insurance implications for those living in the area.
Agreed: to arrange an urgent meeting with Natural Resource Wales. The Clerk to action.

5. Pwyllgorau Allanol/External Meetings

Chwaraeon Cymunedol Amlwch

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar Gyfarfod Cyhoeddus gynhaliwyd gan yr uchod. Cafwyd diweddariad ar y 10 prosiect sydd mewn llaw. Bydd cyfarfod nesaf cyn y Nadolig.

Amlwch Community Play

The Chair reported on a Public Meeting held by the above. An update was provided on the 10 projects that are in hand. Another meeting will be held before Christmas.

Cyfarfod gydag Adran Datblygu Economaidd CSYM

Cylchredodd y Cadeirydd nodiadau o'r cyfarfod a fynychwyd gan LW; KE; RG; Carwyn Jones Dr Trevor Jones a Tudur Jones. Fe drafodwyd arian NDA a'r 5 agwedd mae CSYM wedi ei nodi ar gyfer cefnogi sefyllfa economaidd gyfredol Amlwch. Bydd y Clerc yn trefnu i swyddogion Adran Economaidd CSYM fynychu cyfarfod llawn o'r Cyngor Tref ym mis Tachwedd/Rhagfyr.

Meeting with IACC's Economic Development Department

The Chair circulated the notes of the meeting attended by LW; KE; RG; Carwyn Jones Dr Trevor Jones and Tudur Jones. The NDA funding was discussed and the 5 points that the IACC have noted to support the current economic situation in Amlwch. The Clerk will arrange for officers from the IACC's Economic Department to attend the Town Council's full Council meeting in November/December.

6. Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cyflwynodd MO adroddiad lafar yn dilyn cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid. Nododd y canlynol:-

Ceisiadau am arian

- Cylch Meithrin Amlwch - £1500
- Amlwch Men's Sheds - cytunwyd i ofyn am gopi o'u cyfrifon a'u cyfansoddiad ar gyfer ystyriaeth yn y Pwyllgor Cyllid nesaf.
- Chwaraeon Cymunedol - £1000 gydag argymhelliad i ail gyflwyno cais os nad yw'r digwyddiadau a restrwyd wedi cymryd lle
- Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020 - £500 gan nodi bod y rheol gyllid o ariannu ceisiadau lleol yn cael ei hepgor yn yr achos hwn gan fydd nifer o blant y dalgylch yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod. Cytunodd y Pwyllgor Llawn yn unfrydol i gefnogi'r gwariant uchod.

Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol

Codi cyflogau Cynghorwyr Sir - argymhelliad y Pwyllgor Cyllid oedd gwrthwynebu unrhyw godiad. Yn dilyn pleidlais cytunwyd i weithredu'r argymhelliad - 9 aelod o blaid a 4 yn atal eu pleidlais.

Costau Cynghorwyr Tref a Chymuned - argymhelliad Pwyllgor Cyllid oedd dilyn yr un drefn a llynedd sef hepgor talu costau ar wahân i gostau'r Cadeirydd. Cytunodd y Pwyllgor Llawn yn unfrydol.

MO gave a verbal report following the meeting of the Finance Committee. He noted the following:-

Funding requests

- Cylch Meithrin Amlwch - £1500
- Amlwch Men's Sheds – it was agreed to ask for a copy of their accounts and constitution for consideration at the next Finance Committee.
- Community Play - £1000 with a recommendation to re-submit the application if the activities listed haven't taken place.
- Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020 - £500 noting that the rule of donating only to local requests be put aside in this instance since there will be a number of children from the area taking part in the Eisteddfod.

The Council agreed unanimously to support the above donations.

Report of the Independent Review Panel

Increasing County Councillors' salary - the Finance Committee's recommendation was to oppose any increase. Following a vote the proposal was agreed – 9 members in favour and 4 abstentions.

Town and Community Councillor Costs – the Finance Committee's recommendation was to adopt the same approach as last year which was not to accept the payment of costs other than the Chair's costs. The Council agreed unanimously.

7. Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and open Spaces Committee Report

Adroddodd Mike Roberts nad oedd cyfarfod wedi bod ond bydd un yn cael ei gynnal cyn y cyfarfod llawn nesaf.

Cyfeiriodd at arian ychwanegol o £10K ar gael i gefnogi cyllido Loteri sydd wedi ei gymeradwyo eisoes. Bydd y Pwyllgor Parciau a Mannau agored yn arwain ar hwn. Nododd ei fod mewn trafodaethau gyda Sunshine Playground i sicrhau cytundeb ffurfiol ar ddyddiad gorffen y prosiect.

Mike Roberts reported that a meeting hadn't taken place but that one will be held before the next Council meeting.

He referred to the extra funding of £10K available to support the Lottery funding that has already been approved. The Park and Open Spaces Committee will lead on this.

He noted that he was in discussions with Sunshine Playground to ascertain a formal completion date for the project.

8. Adroddiad Pwyllgor Cynllunio/Planning Committee Report

Nododd y Cadeirydd y canlynol:-

Wedi eu cymeradwyo:

Stryd Bethesda - newid modurdy yn annedd

Stryd Capel Porth Amlwch - dymchwel fflat a chreu annedd

Craig y Wylan

Ceisiadau i law:

Craig y Don – dymchwel modurdy

Stad Glorian – dymchwel modurdy

Gwesty Porth Llechog - nodwyd bod dyddiad cau am sylwadau yfory sef 30.10.19. Cyflwynodd AMJ lythyr o wrthwynebiad gan un o drigolion cyfagos i'w safle. Yn dilyn trafodaeth eang cynigiodd GWR, ac fe eiliodd MO, y canlynol:

- Gofyn i Cyng. R O Jones fel Is Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i roi y cais ar raglen Pwyllgor Cynllunio nesaf CSYM
- Cyflwyno cais am Ymweliad Safle

Cytunwyd: gan fod yr amserlen yn dyn, Cadeirydd i weithredu yn absenoldeb y Clerc.

The Chair noted the following:-

Approved:

Bethesda Street – change of garage to a dwelling

Chapel Street, Amlwch Port – demolish a flat and building a dwelling

Craig y Wylan

Applications received:

Craig y Don – demolishing a garage

Stad Glorian – demolishing a garage

Bull Bay Hotel – it was noted that the closing date for comments was tomorrow 30.10.19. AMJ read a letter of objection from one of the nearby residents to the site. Following a lengthy discussion GWR proposed the following, seconded by MO:

- To ask Cllr. R O Jones as the Planning Committee Vice Chair to put the matter on the agenda of the next IACC Planning Committee
- To submit a request for a site visit
-

Agreed: since the timetable is tight that the Chair takes action in the Clerk's absence.

9. Prosiect Loteri/Lottery Project

Trafodwyd eisoes/Already discussed.

10. Cynghrai Twrcelyn Alliance

Adroddodd Carys Hughes ei bod wedi cyfarfod gyda swyddogion CSYM a bod cymorth ar gael. Bydd cyfarfod allan gyda Dr Trevor Jones CSYM yn fuan.

Holodd CH os ydyw e-bost y Clerc yn cael ei fonitro yn ei habsenoldeb gan fod cyfeirio at lythyr mewn cyfarfod bu iddi fynychu ac nad oedd yn ymwybodol ohono, hyn yn bryder rhag ofn bod aelodau yn colli gwybodaeth. Nododd GWR bod y Cadeirydd mewn cyswllt a'r Clerc i fynd i'r afael ag unrhyw faterion brys.

Carys Hughes reported on a meeting held with IACC officers and that assistance is available. Another meeting will take place in the near future with Dr Trevor Jones from IACC.

CH asked if the Clerk' e-mails are being monitored in her absence since there was reference to a letter in a meeting she had attended of which she had no knowledge of. This was a concern in case members were missing out on information. GWR stated that the Chair and the Clerk were in touch in order to deal with any urgent business.

11. Lon Las Môn

Dim cyswllt wedi bod – ymlaen i'r cyfarfod nesaf/No contact made – leave until the next meeting.

12. Sedd Wag / Vacant Seat

Dim diweddariad/No update.

13. Safle Rehau Site

Cyfeiriwyd at lythyr gan brif Weithredwr CSYM - derbyniwyd y cynnwys.

Reference was made to a letter from the IACC's Chief Executive – its contents were noted.

14. Wylfa Newydd

Mynegwyd pryder bod penderfyniad ar y cais cynllunio wedi ei ohirio tan y flwyddyn newydd.

Concerns were noted that the decision on the planning application had been put back until next year.

15. Co-op Cynnyrch Cymreig / Co-cop Welsh Produce

Adroddodd MO ei fod wedi derbyn nifer o gwynion nad oes cynnyrch Cymreig yn cael ei werthu yn siop Co-op yn y dref.

Cytunwyd: ysgrifennu at bencadlys Co-op yn nodi'r pryder ond yn canmol y rheolwr a'r staff ac awgrymu trefnu gweithgaredd i hybu cynnyrch Cymreig lleol yn y siop. Clerc i weithredu .

MO reported that he had received numerous complaints in relation to the lack of Welsh produce being sold at the town's Co-Op store.

Agreed: to write to the Co-Op head office to convey the concern but also to praise the local manager and staff, raising the possibility of arranging an event at the shop to promote local Welsh produce. The Clerk to action.

16. Cwestiynau i'r Cyngorwyr Sirol/Questions to the County Councillors

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

Cytunwyd: er hynny i ysgrifennu at Anwen Morgan Prif Weithredwr newydd CSYM yn ei llongyfarch ar ei phenodiad.

No questions were asked.

Agreed: to write to Annwen Morgan the new Chief Executive to congratulate her on her appointment.

17. Gohebiaeth/Correspondence

Pwyllgor Porth Amlwch - cais i ddefnyddio sgwâr ar gyfer Ffair Nadolig a Gŵyl Gopr 202. Cytunwyd ar amod gweld polisi yswiriant dilys ac addas.

Amlwch Port Committee – a request to use the square for a Christmas Fair and the 2020 Copper Festival. Agreed subject to being presented with evidence of adequate insurance cover.

E-bost gan Peter Mount - ymwelydd i'r ardal yn holi am osod murlun ar wal ger y Pwll Nofio - Clerc i anfon yr ohebiaeth at CSYM yn nodi bod y Cyngor Tref yn gefnogol.

E-mail from Peter Mount – a visitor to the area enquiring about creating a mural on a wall near the swimming pool – the clerk to forward the request to the IACC noting the Town Council's support.

John Weston Woodlands Trust - cyfeirio at becynnau coed ar gael yn rhad ac am ddim. Ymlaen i ystyriaeth y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored

John Weston Woodlands Trust – drawing attention to the fact that tree purchasing packages were available for free. To forward to the Park and Open Spaces Committee.

CSYM - cadarnhad swyddogol bod llwybr ger gwesty Trecastell wedi ei ail-agor.

IACC – official confirmation that the footpath near the Trecastell hotel had been re-opened.

Diwrnod VE 75 – nododd AMJ bod yr ardal wedi ei chofrestru eisoes.

VE 75 day – AMJ stated that the area had already been registered.

18. **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

Gohebiaeth gan Dafydd Idriswyn Un Llais Cymru - Ardal Môn ar ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft sy'n agored i ymatebion hyd at 1 Tachwedd. Mae adrannau 10-13 yn achos pryder sylweddol i drigolion Môn, yn arbennig felly canol yr Ynys.

Cytunwyd: i'r Cadeirydd yn absenoldeb y Clerc gyflwyno gwrthwynebiad fel yr argymhellwyd yn yr e-bost ac o fewn y terfyn amser. Hefyd, cyflwyno cais i Adran Datblygu Economaidd CSYM i ailystyried galw Ynys Môn yn Ynys Ynni gan y gall hyn, bellach, fod yn deitl camarweiniol.

Correspondence from Dafydd Idriswyn One Voice Wales – Anglesey and the consultation on the National Development Framework. It was noted that Welsh Government had published a draft of its National Development Framework which was open for consultation until 1st November. Sections 10-13 are causing concern for Anglesey residents especially so in Central Anglesey.

Agreed: that the Chair in the Clerk's absence should reply objecting on the same basis as outlined in the contents of the e-mail and within the timescale stipulated. Also to write to the IACC Economic Department asking them to reconsider the designation of Anglesey as the Energy Island, as this was now proving to be a misleading title.

Parc Maes Llwyn – dim diweddariad/no update.

Porthladd Caergybi - yng ngoleuni trasiedi diweddar o 39 o bobl wedi eu canfod yn farw mewn lori cludiant, pwysleisiwyd yr angen i gael cadarnhad y Llywodraeth ganolog ac yng Nghaerdydd o'u cynlluniau parthed Porthladd Caergybi, sef y porthladd ail-brysuraf ym Mhrydain Fawr.

Cytunwyd: ysgrifennu at y Cynulliad i ofyn am fanylion eu bwriadon i'r porthladd yng ngoleuni Brexit.

Holyhead Port – in light of the recent tragedy when 39 people were found dead in the back of a lorry the importance was emphasised of getting both Central Government and Welsh Government confirmation in relation to their plans for the Port of Holyhead, the second busiest in the United Kingdom.

Agreed: to write to the Assembly asking for details of their plans for the port in view of Brexit.

Gwasanaeth Cysegriad.

Adroddodd y Cadeirydd bod baner newydd wedi ei harchebu a bydd gwasanaeth i gysegru'r faner ar 3.11.19. Hefyd cyfeiriodd at drefniadau Sul y Cofio 10.11.19. - manylion pellach i ddilyn ar e-bost.

Remembrance Service

The Chair reported that a new banner had been ordered and a service to consecrate it will be held on 3.11.19. Also she referred to the arrangements for Remembrance Sunday on 10.11.19 – further information to be sent by e-mail.

Coed Nadolig

Dywedodd GW bod y coed Nadolig sydd mewn bracedi drwy'r stryd fawr braidd yn simsan llynedd.

Cytunwyd: i GWR drafod ymhellach gyda'r Clerc

Christmas Trees

GW stated that the Christmas trees in brackets on the high street were a bit insecure last year.

Agreed: GWR to discuss this further with the clerk.

19. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

26.11.19

7pm

Neuadd y Dref/Town Hall

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yn/Meeting finished at 8.45pm.

Arwyddwyd/Signed:

Liz Wood, Cadeirydd/Chair.